**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 23 Mawrth 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | R Francis-Davies | L S Gibbard |
| H J Gwilliam | D H Hopkins | E J King |
| A S Lewis | A Pugh | R V Smith |
| A H Stevens | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): P M Black

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr):

---

### 149. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd A Pugh gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 156 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol", a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.

2) Datganodd y Cynghorydd R V Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 156 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol", a dywedodd ei fod wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

3) Datganodd y Cynghorydd L S Gibbard gysylltiad personol â Chofnod 159 "Adroddiad Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf 2023/23".

## 150. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2023.

## 151. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### 1) Ffrwydrad yn Clydach Road, Treforys

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y farwolaeth drasig ddiweddar yn dilyn ffrwydrad yn Clydach Road, Treforys. Mynegodd ei gydymdeimladau i'r teulu ar ran y dioddefwr.

Diolchodd hefyd i Swyddog Cyngor Abertawe, y Tîm Tai a'r Gwasanaethau Brys am gefnogi'r gymuned.

### 2) Cydymdeimladau, y Cynghorydd Hazel Morris

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at farwolaeth ddiweddar y Cynghorydd Hazel Morris. Dywedodd fod y Cynghorydd Morris wedi cynrychioli Ward Penderi am 15 mlynedd.

Cafwyd munud o ddistawrwydd gan bawb a oedd yn bresennol i ddangos cydymdeimlad a pharch.

### 3) Porthladd Rhydd yn Aberdaugleddau a Phort Talbot

Croesawodd Arweinydd y Cyngor y cyhoeddiad bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Penfro, fel rhan o ddinas-ranbarth Bae Abertawe, wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais i gael porthladdoedd rhydd yn Aberdaugleddau a Phort Talbot.

## 152. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 153. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 154. Craffu Cyn Penderfynu - Terfyn cyflymder diofyn o 20mya, gan gynnwys ystyried y broses eithriadau.(Llafur)

Darparodd y Cynghorydd P M Black adborth cyn penderfynu.

**155. Terfyn cyflymder diofyn o 20mya, gan gynnwys ystyried y broses eithriadau.**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd adroddiad a oedd yn amlinellu'r cynnig i wneud y terfyn cyflymder diofyn cenedlaethol ar ffyrdd cyfyngedig yn 20mya ac yn manylu ar y ffyrdd hynny a fydd yn cael eu heithrio ac sy'n parhau ar gyflymder o 30mya. Mae'r adroddiad yn nodi'r broses ymgynghori i'w dilyn ac yn gofyn am gadarnhad o'r ymagwedd a gymerwyd.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi gofyniad gorfodol Llywodraeth Cymru i roi terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar waith yn Abertawe.

2) Cymeradwyo'r ymagwedd y manylir arni yn yr adroddiad o ran rhoi'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar waith yn Abertawe.

3) Rhoi awdurdod i Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd gymeradwyo'r eithriadau y cytunwyd arnynt gydag Aelodau Ward unigol gan arwain at hysbyseb gyhoeddus ffurfiol y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig priodol.

**156. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.**

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

Penderfynwyd ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd y Crwys | Michael Clinch |
| 2) | Ysgol Gynradd Llanrhidian | Laura Alexander |
| 3) | Ysgol Gynradd St Thomas | Y Parchedig Steven Bunting |
| 4) | Ysgol Gynradd Talycopa | Y Cyng. Alyson Pugh |
| 5) | Ysgol Gynradd Tre Uchaf | Rachel Rees |
| 6) | YGG Gellionnen | Helen Jones |
| 7) | YGG Lôn Las | Angharad Wooldridge |
| 8) | YGG Pontybrenin | Keith Collins |
| 9) | YGG Tan-y-lan | Gareth Huxtable |
| 10) | Y G Bryntawe | David Williams |

## 157. Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Chwarter 3 2022/23.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn amlinellu'r Perfformiad Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3 2022/2023.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi perfformiad y cyngor o ran rheoli'r pandemig a'i ganlyniadau a chyflawni amcanion lles y cyngor ar gyfer chwarter 3, 2022-23.

2) Cymeradwyo defnyddio'r wybodaeth hon i lywio penderfyniadau gweithredol ynglŷn â dyrannu adnoddau a, lle bo'n berthnasol, gamau gweithredu cywirol i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

## 158. Rhaglen Grant Cyfleusterau I'r Anabl A Grant Gwella 2023/24.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn darparu manylion y Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r Grant Gwella ac yn ceisio cymeradwyaeth i gynnwys cynlluniau yn Rhaglen Gyfalaf 2023/24. Roedd hefyd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol, "Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf", i neilltuo ac awdurdodi rhaglenni i'r Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r Grant Gwella fel y manylir yn yr adroddiad, gan gynnwys ei goblygiadau ariannol, a chynnwys y Rhaglen yng nghyllideb gyfalaf 2023/24.

## 159. Adroddiad Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf 2023/24.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio cytundeb ar y cynlluniau i'w hariannu drwy'r Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Caiff y cynlluniau cynnal a chadw cyfalaf arfaethedig a restrir yn Atodiad A i'r adroddiad eu cymeradwyo.

2) Caiff y cynlluniau a'u goblygiadau ariannol fel a nodwyd yn Atodiad C yr adroddiad eu hawdurdodi a'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

## 160. Dyraniad Cyfalaf i Asedau Isadeiledd Priffyrdd 2023-24.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd adroddiad a oedd yn ceisio cadarnhau Rhaglen Gwaith Cyfalaf ar gyfer asedau'r isadeiledd priffyrdd.

**Penderfynwyd:**

1) Caiff y dyraniadau dangosol arfaethedig, ynghyd â'r Goblygiadau Ariannol a nodir yn Atodiad A yr adroddiad, eu cymeradwyo a'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

2) Rhoi awdurdod i Bennaeth Priffyrdd a Chludiant, gyda chydsyniad Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd, i flaenoriaethu, cwblhau a chlustnodi arian i'r cynlluniau priodol yn unol â'r ymagwedd flaenoriaethu a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

## 161. Cytundeb Compact y Trydydd Sector - Diweddariad.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Les adroddiad a oedd yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am Gytundeb Compact Trydydd Sector Abertawe a'r gwaith a welwyd hyd yma gan Grŵp Cydgysylltu Compact a ffurfiwyd fel rhan o Gytundeb Compact Abertawe a ddiweddarwyd gyda'r Sector Gwirfoddol yn 2018.

**Penderfynwyd:**

1) Y dylid nodi'r adroddiad.

## 162. Strategaeth Toiledau Cyhoeddus Abertawe - Diwygiwyd 2023.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Strategaeth Toiledau Cyhoeddus ddiwygiedig Abertawe.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo Strategaeth Toiledau Cyhoeddus ddiwygiedig Abertawe.

2) Cymeradwyo'r camau gweithredu ar gyfer cyflawni yn y dyfodol fel y nodir ym mharagraff 3 yr adroddiad a rhoi'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd ac Aelod y Cabinet dros Gymunedau wneud unrhyw ddiwygiadau neu newidiadau i'r cynllun cyflawni.

## 163. Cynllun Cartrefi Gwag Cenedlaethol 2023-2025.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn ceisio darparu manylion cynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac yn gofyn am gymeradwyaeth i gymryd rhan yn y cynllun gan gynnwys gofynion arian cyfatebol a chynnwys y cynllun o fewn rhaglenni cyfalaf 2023/2024 a 2024/25 i gydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol "Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf" - i neilltuo ac awdurdodi cynlluniau i’r Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo cyfranogiad y cyngor yn y cynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol a chymeradwyo darparu'r gofynion arian cyfatebol.

2) Cynnwys y cynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol yn rhaglenni cyfalaf 2023-24 a 2024-25.

**164. Adroddiad FPR7 - Grant Creu Lleoedd - Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol "Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf" - i neilltuo ac awdurdodi rhaglenni i'r Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi bod y cais am grant a nodir yn yr adroddiad wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru fel rhan o rownd ymgeisio cyfalaf 2022/23-2024/25 ar gyfer Rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.

2) Cymeradwyo ychwanegu cyllid Rhaglen Grant Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru at y rhaglen gyfalaf er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cynlluniau a amlinellir ym mharagraff 2.2 yr adroddiad.

3) Nodi bod cytundeb rhwng awdurdodau yn cael ei baratoi i warchod sefyllfa'r cyngor fel Awdurdod Arweiniol wrth ddosbarthu'r cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r cynlluniau ar sail ranbarthol a rhoi awdurdod i Bennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyfreithiol ymrwymo i'r cytundeb ar ran y cyngor.

**165. Ardrethi Busnes - Cynllun Cymorth Ardrethi Dros Dro (Cymru) 2023/24.**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth ac yn ceisio mabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch dros dro sy'n berthnasol i Ardrethi Busnes, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi manylion y cynllun y'u nodir yn yr adroddiad.

2) Mabwysiadu'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi a amlinellir yn yr adroddiad ar gyfer 2023/24.

**166. Eitem Frys**

Nododd Arweinydd y Cyngor, yn unol â pharagraff 100B (4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ei fod yn meddwl y dylid trafod “Caffael Canol Dinas Abertawe” yn y cyfarfod fel mater brys.

**167. Gwahardd y Cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff

gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 168. Caffael Canol Dinas Abertawe

**Rheswm dros y mater brys:** Mae angen cwblhau'r caffaeliad o fewn y flwyddyn ariannol hon ac mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r amodau y grant.

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Brys:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "naill ai Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Adran 151 neu'r Swyddog Monitro'n ardystio y gallai unrhyw oedi sy'n debygol o gael ei achosi gan y weithdrefn galw i mewn wneud niwed i'r cyngor neu fudd y cyhoedd, gan gynnwys methu cydymffurfio â gofynion statudol".*

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gwblhau'r caffaeliad o fewn Canol Dinas Abertawe fel y manylir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion diwygiedig fel y manylwyd.

**Nodyn:** Gohiriwyd y cyfarfod am 23 munud (11.27-11.50) yn ystod yr Eitem hon er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor Penodiadau gyfarfod fel y trefnwyd.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.32 pm

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 23 Mawrth 2023 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, a 28 Mawrth 2023 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 29 Mawrth 2023 |